# Cenn@d

MAI 3 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 114

# Asbri'r diwygiad ymhlith myfyrwyr Asbury

Yn ddiweddar, aeth tri ohonom o Ffald y Brenin, ein canolfan encil a gweddi yn sir Benfro, i Nashville, Tennessee, ar gyfer cynhadledd ar weddi a diwygiad. Un o'r cyfarfodydd yr wythnos cyn hynny ar y we er mwyn ein paratoi ar gyfer y gynhadledd oedd darlith am y diwygiad yn Asbury yn 1970. Pan dynnodd y siaradwr yn ôl, fe geision nhw gael rhywun arall yn ei le, a dod o hyd i rywun addas (oedd yn bresennol yn 1970). Ei ymateb oedd, 'Ydych chi'n golygu 1970 neu 2023 ... mae wedi dechrau eto dair awr yn ôl!'

Fore Mercher, 8 Chwefror, fe dorrodd diwygiad allan ym Mhrifysgol Asbury yn Wilmore, Kentucky. Fe ddechreuodd pethau ar ôl y cyfarfod gweddi a'r addoliad arferol yn Neuadd Hughes pan benderfynodd y myfyrwyr aros yno ym mhresenoldeb Duw. Coleg â chysylltiad efo'r eglwys Fethodistaidd yn yr Unol Daleithiau yw Asbury, ac fe fu'n lle o ddiwygiad o'r blaen, yn arbennig felly yn 1970 pan gafwyd diwygiad a fyddai'n cael effaith pellgyrhaeddol ar Fethodistiaeth yn yr Unol Daleithiau ac ar dwf Mudiad Iesu (Jesus Movement).

Er na wnaethon ni'r daith dair awr i Brifysgol Asbury, fe gwrddon ni â sawl un a wnaeth hynny. Roedden nhw'n disgrifio torfeydd mawr, yn aml y tu allan i'r adeiladau, gyda'r ffocws nid ar bobl na llwyfannau, ond ar ymdeimlad gwahanol, tawel o bresenoldeb Duw ac o weddi.

O ran arwyddocâd hyn, nid yw'n ymwneud â'r lle mewn gwirionedd oherwydd bod y digwyddiadau yn Asbury wedi cael eu dwyn i ben wythnosau yn ôl (24 Chwefror) er mwyn galluogi'r brifysgol i weithredu. Fodd bynnag, wedi hynny bu adroddiadau am lawer o ddigwyddiadau tebyg, i ddechrau ar gampysau myfyrwyr yn yr Unol Daleithiau ac yna'n fwy diweddar ar draws y byd, fel arfer lle mae pobl yn dewis oedi ar ôl i gyfarfod ddod i ben, yn syml, er mwyn aros ym mhresenoldeb Duw. Er enghraifft, digwyddodd hyn un noson yng Ngŵyl Llanw yng Nghymru wedi'r Pasg, a gwn yn bersonol am eglwysi yn Llundain a Melbourne lle digwyddodd yn ddiweddar hefyd.

Mae rhai pethau i'w nodi: mae Asbury yn brifysgol lle roedd presenoldeb mewn 'capel' fwy neu lai yn orfodol, sy'n awgrymu cyfran o fynychwyr anfoddog. Eto i gyd, roedd rhywbeth yn symud ymhlith y genhedlaeth a alwn ni yn Generation Z, grŵp oedran sy'n cynnwys rhai yn eu harddegau ar hyn o bryd hyd tua 25 oed. Dyma genhedlaeth sydd wedi'i heffeithio gan bryder a dryswch. Roedd rhywbeth gwahanol ar waith yma, a doedd dim sylw yn y symudiad i dechnoleg na'r cyfryngau, na ffocws ar unigolion na phersonoliaeth. Awgrymodd rhywun yn ddiweddar y byddai symudiad nesaf Duw yn cael ei nodweddu gan 'lef ddistaw fain Duw'– ac mae'r disgrifiad hwnnw i'w weld yn ffitio yma. Clywais mai'r sbardun allweddol i'r hyn ddigwyddodd yn Asbury oedd i fyfyriwr oedd wedi lledaenu clecs ffug a niweidiol o amgylch y campws deimlo rheidrwydd i edifarhau'n gyhoeddus am hynny. Mae llawer hefyd wedi gwneud sylwadau ar yr arweinyddiaeth hanfodol ond diymhongar y tu ôl i'r llenni a helpodd i stiwardio a diogelu'r tywalltiad yma o'r Ysbryd Glân.



Llun: Mollie Landman Hunker; CC BY-SA 4.0

Neuadd Hughes, Prifysgol Asbury

Fe ledaenwyd y newyddion am y tywalltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol, oherwydd mai felly mae'r genhedlaeth oedd ynglŷn â'r tywalltiad yn cyfathrebu, ond nid yno yr oedd y ffocws. Roedd y ffocws ar fod yno'n bresennol yn gorfforol, ac fe ddaeth tua 15,000 bob dydd i fod yn rhan ohono. Erbyn y diwedd yr oedd rhwng 50 a 70 mil o ymwelwyr wedi dod i Wilmore, gan gynrychioli dros 200 o sefydliadau academaidd a llawer o daleithiau a gwledydd.

Ydy hyn yn ddeffroad nerthol? Na, o leiaf ddim eto. Ai 'cwmwl maint llaw dyn' ydy o? Rwy'n credu hynny, ac rwy'n canfod nodweddion diwygiad ynddo, yn enwedig y sylw a roddir i Dduw ei hun a bod symudiadau Duw yn cyffwrdd â'r rhai ar yr ymylon (e.e. plant yn niwygiad 1859). Mae'r hyn sy'n digwydd ymhlith Cenhedlaeth Z (Gen Z) yn ffitio'r disgrifiad hwn. Wrth gwrs, dylem gydnabod bod rhannau helaeth o'r byd yn profi, neu wedi profi, diwygiad yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac nad yw ein sefyllfa ni yn y Gorllewin yn un nodweddiadol wrth edrych ar yr eglwys ledled y byd.

Felly sut ddylen ni ymateb? Rwy'n credu y dylen ni gymryd yr adroddiadau hyn fel anogaeth gan Dduw: i weddïo, i gredu, i fod yn ddisgwylgar ac i baratoi ein hunain. Credaf hefyd y dylem weddïo'n benodol dros y cenedlaethau iau (yn enwedig y rhai o dan 30 oed) a gwneud beth bynnag allwn ni i'w hannog, eu cyrraedd a'u galluogi. Pan oedden ni yn yr Unol Daleithiau gwelsom y ffilm *Jesus Revolution* mewn sinema, cyd-ddigwyddiad diddorol o ran amseru. Mae'n disgrifio adfywiad diwedd y 60au yng Nghaliffornia ymhlith 'hippies' ifanc a gyffyrddodd genhedlaeth gyfan. Dyma ddiwygiad a roddodd fod i enwadau fel Vineyard a Calvary Chapel, gan helpu i siapio llawer o fywyd ac addoliad eglwysig cyfoes y Gorllewin. Ychwanegodd adfywiad Asbury ym 1970 fywyd ffres mewn modd sylweddol i'r mudiad hwn. Byddwn yn annog pob eglwys i'w gosod ei hun mewn man lle gall Duw ei defnyddio fel bydwraig ar gyfer Mudiad Iesu newydd!'

*Clive Orchard*
*Warden ac Arweinydd Tîm*

Ac mae Wrecsam ar y blaen ...
**Tudalen 2**

'Gosod yr unig mewn cartref' – gall pawb helpu!
**Tudalen 3**

George Verwer: mudiad Operation Mobilization yn colli eu sylfaenydd a'u hysbrydoliaeth
**Tudalen 7**

# Ac mae Wrecsam ar y blaen …



Llun: ©Cody Froggatt/Alamy Live News

Fe gefais i fy magu yn y cyfnod pan oedd tim pêl-droed Wrecsam yn ei gwneud hi'n dda yn y 70au. Cofiaf gael bag ysgol yn lliwiau'r clwb a chlywed Côr Meibion Brymbo byth a hefyd yn canu 'I mewn i'r gôl, gôl, i mewn i'r gôl … ac mae Wrecsam ar y blaen'. Ond byrhoedlog fu'r llwyddiant bryd hynny ac ni fu canu llawer ar y gân am flynyddoedd. Eto i gyd, fe fu nifer o selogion yn y gogledd-ddwyrain yn dal i gefnogi a dilyn y gemau, gan annog oddi ar y lleiniau ochr. Wedi hir flynyddoedd o aros a gobeithio, dyheu a chodi arian, gweithredu a gweithio'n galed, fe ddaeth tro ar fyd.

Does dim raid I mi adrodd y stori wrthych, ond mae'r gogledd-ddwyrain i gyd yn llawenhau yn llwyddiant ac adfywiad gobeithion Tim Pêl-droed Wrecsam. Yn wir, mae sôn am y tîm ledled y byd! Fe ddefnyddir stori tîm pêl-droed Wrecsam fel dameg o'r hyn mae'n bosib ei gyflawni o ddyfalbarhau.

Bu llawer yn eglwysi siroedd y Fflint a Wrecsam ac yn ehangach yn driw I'r tîm drwy adegau anodd gan gefnogi ym mhob tywydd a dilyn y gemau i bellafoedd, gan ddal ati i brynu'r tocynnau tymor a dyheu am ddyddiau gwell. Roedden nhw'n gallu synhwyro y byddai'r adfywiad yna'n dod rywbryd!

Beth sydd a wnelo hyn efo ni, ddarllenwyr *Cenn@d*, yr wythnos yma, meddech chi? Hoffwn dynnu cymhariaeth rhwng stori Tîm Pêl-droed Wrecsam a'r eglwys Gymraeg yn ein broydd a sefyllfa disgyblion cyntaf yr Arglwydd Iesu wedi'r Pasg.

Aros a disgwyl fu hanes y disgyblion cyntaf, am fod Iesu wedi addo iddyn nhw fod yna nerth a chymorth ar ei ffordd yn ffurf yr Ysbryd Glân. Fe fydden nhw wedyn, o'i dderbyn, yn gallu bod yn dystion iddo ef ledled y byd gan ddechrau yn y man lle roedden nhw. Fe ddaeth y bywyd a'r nerth yna i'w rhan ar ddydd y Pentecost, ac fe ychwanegwyd tair mil o bersonau atyn nhw bryd hynny. Roedd yr eglwys wedi cael 'cic start' go iawn!

Fel y bu llawer o gefnogwyr Wrecsam yn dal eu gafael yn eu tocynnau tymor, yn dyheu, yn erfyn ac yn gweithio tuag at adfywiad yn y cyfnod llwm, felly y mae'n rhaid i ninnau fod yn eglwys Iesu Grist. Mae angen inni ddal gafael yn ein tocynau a throi i fyny a chefnogi drwy'r dyddiau caled ac ym mhob tywydd. Gelwir arnom ni i ddal gafael yn ein gobaith, i ddal ati yn ein haberth, i ddyheu, gan weithio ac erfyn mewn gweddi am yr adfywiad yr ydyn ni'n sicr sydd ar ddod os parhawn yn ffyddlon i'r hwn sydd â'i addewid yn ffyddlon i ni.

Mae Iesu yn dal ar y blaen ac yn bendithio pob ymdrech a wnawn ni i gyhoeddi ei enw ac i ddweud ei stori yn y fan lle rydym ni a ledled y byd.

Clywch yr alwad i ddal ati yn y llythyr at yr Hebreaid yn y Testament Newydd:

> Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon. Gadewch inni ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da, heb gefnu ar ein cydgynulliad ein hunain, yn ôl arfer rhai, ond annog ein gilydd, ac yn fwy felly yn gymaint â'ch bod yn gweld y Dydd yn dod yn agos. (Hebreaid 10:23–5)

*(Gol. HP-D)*

# 'Gosod yr unig mewn cartref' – gall pawb helpu!

Roedd yn fraint yn ystod cynhadledd Llanw eleni cael fy ngwahodd, ynghyd ag Angharad Clwyd, fy nghyd-weithiwr a chyd-ofalwr maeth, i roi sgwrs ar fabwysiadu a maethu, ar ein profiadau ohono a'r modd y mae ein ffydd wedi ein hysbrydoli ar hyd y daith.

Mae Salm 68, adnod 6, yn ein hysbysu bod Duw yn gosod yr unig mewn cartref. Yn wir, mae'n amhosibl darllen y Gair heb weld mor werthfawr ydi plant a phobl ifanc yng ngolwg Duw, a sut y mae wedi ordeinio eu gosod mewn cartrefi. Mae Duw drwy ei air yn gofyn inni adlewyrchu ei gariad, i ddangos ei gariad i'n gilydd, a dyma sydd wedi ein cymell ar hyd llwybr mor gyffrous, mor anodd ei rag-weld – un sydd hefyd, ar brydiau, yn unig.

Fe ddechreuon ni drwy gymryd golwg sydyn ar ddiwinyddiaeth mabwysiadu, sy'n esbonio sut mae Duw wedi ein mabwysiadu ni gan roi lle i ni yn ei deulu. Mae hefyd yn ein hatgoffa yn Rhufeiniaid 8 ein bod ni wedi ein mabwysiadu, ac yn ein hatgoffa eto yn Galatiaid 4, adnod 5, ein bod wedi ei mabwysiadu i mewn i'w deulu ef. Mae hyn ynddo'i hun yn wirionedd ac yn anrhydedd rhyfeddol, ac ar lefel bersonol wedi bod yn gymhelliad grymus i'n taith drwy fabwysiadu a maethu.

Fodd bynnag, mae Angharad a minnau ein dwy'n ymwybodol nad ydi pawb wedi ei alw i agor eu cartrefi. Fe all fod amgylchiadau teulu anodd neu nad yw gyrfa'n caniatáu hynny, neu efallai dim lle yn y tŷ! Ond dydi hyn ddim yn eithrio pobl rhag ymuno â'r daith.

Mae'r sefydliad Home for Good yn ein cefnogi ac yn ein annog i gyd fel teulu'r Eglwys i fod â rhan yn y daith. Mae'n daith o degwch cyfiawn, o letygarwch, teulu ac eglwys. Bu inni edrych felly pa ran y gallen ni fel Eglwys ei chwarae yn y gwaith o gefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu ac yn maethu. Allen ni ddarparu pryd o fwyd i'r teuluoedd hynny? Allen ni gynnig gwarchod iddyn nhw? Oes gennym ni sgiliau fyddai'n help i'w cynnal? Ydi ein plant wedi tyfu allan o ddillad y gallen ni eu pasio ymlaen? Oes gennym ni deganau, dillad gwely ac ati, fyddai'n gymorth i'r teuluoedd yma wrth iddyn nhw groesawu plant i'w cartref a chynnal plant bregus? Mae gweddi hefyd yn hanfodol wrth inni gael ein galw i garu a bod yn rhieni i'r plant yma; fel eglwysi, fe allwn ni anrhydeddu'r teuluoedd hyn yn ein gweddïau beunyddiol. Mewn geiriau eraill, mae gennym ni i gyd ran i'w chwarae; fe allwn ni i gyd fod yn rhan o'r daith i drawsnewid bywydau'r plant yma.

home for good

maethu cymru | foster wales



Wrth ddwyn y seminar i ben, fe gawsom rannu o ddaioni Duw, ei ddarpariaeth ar ein cyfer a'i garedigrwydd tuag atom ni ar hyd y daith. Mae hi'n daith galed, yn un lawn her, ond yn fraint enfawr, ac yn siwrnai sy'n ein galluogi i ddangos y cariad sydd gan Iesu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc rhyfeddol yma.

Os hoffech chi wybod mwy neu gael sgwrs ynglŷn â'n teithiau mabwysiadu a maethu ni, mi fydd Angharad a minnau wrth ein bodd yn siarad efo chi. Am wybodaeth bellach ewch i wefan hyfryd Home for Good, ac mae gan Maethu Cymru bentwr o wybodaeth a fideos yn cyflwyno profiadau gofalwyr maeth eraill.

*Sian Edwards ac Angharad Clwyd*
*Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan , Y Bala*
*(01678) 520565*
colegybala@ebcpcw.cymru

# Dewch i ddysgu sut i ysgrifennu erthyglau byrion diddorol!

Ydych chi'n hoffi ac am ddysgu sut i ysgrifennu erthyglau diddorol i'w cyhoeddi? Mae angen newyddiadurwyr lleol ar hyd a lled Cymru sy'n barod i gyfrannu at hyrwyddo gweithgareddau a gwaith Eglwys Bresbyteraidd Cymru! Dewch ar y cwrs hwn – yn rhad ac am ddim – i dderbyn arweiniad, rhannu profiadau a chyfarfod ag eraill sydd â diddordeb mewn ysgrifennu erthyglau byrion neu bwt o newyddion bachog. Cewch ddysgu sut i ysgrifennu am ddigwyddiadau lleol, yn arbennig y rhai sy'n digwydd yn ein capeli, ar gyfer newyddlen eich capel, cylchgrawn fel *Cenn@d*, eich papur bro ac ar gyfer gwefannau a chyfryngau cymdeithasol.

**Tiwtor:** John Roberts, Aberystwyth

Cyflwynydd, cynhyrchydd ac awdur. Magwyd ar fferm Llawr-y-dref ger Llangïan ym Mhen Llŷn. Bu'n weinidog am ddeuddeg mlynedd yn Nyffryn Ceiriog, cyn mynd yn gynhyrchydd rhaglenni crefydd ac yna'n is-olygydd BBC Radio Cymru. Mae'n gyflwynydd y rhaglen *Bwrw Golwg* ar BBC Radio Cymru ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Bellach mae'n gyfarwyddwr cwmni cynhyrchu annibynnol Tonnau Cyf. Ef yw awdur y nofel seicolegol gyfoes *Gabriela* (Y Lolfa), ac ym mis Tachwedd 2021 fe gyhoeddodd *Yn Fyw yn y Cof* (Y Lolfa).

**Dyddiadau / amseroedd / lleoliadau:**

09/05/2023: 10.00–13.00: Coleg y Bala, y Bala (LL23 7RY)

17/05/2023: 10.00–13.00: Festri Capel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan (SA48 7BJ)

**Amserlen:**
10.00 - Cyrraedd a phaned.
10.15 – Sesiwn 1: Pa stori? I bwy? Am bwy?
10.45 – Sesiwn 2: Fy stori i.
11.15 – Toriad.
11.30 – Sesiwn 3: Dechrau, canol a diwedd y stori - sut mae denu diddordeb?
12.00 – Sesiwn 4: Ysgrifennu a chyhoeddi.
12.30 – Sesiwn 5: Eich camau nesaf a chloi'r sesiwn.
13.00 – Cinio a diwedd y cwrs.

# Un Funud Fach

Yn ystod fy adeg yn y coleg doedd ddim llawer ohonom yn siarad Cymraeg. Ac am ryw reswm, efallai'n naïf, fe wnes i feddwl bod pawb yn 'gwneud capel' fel roedden ni'n ei wneud: Cymanfa Bwnc, Cymanfa Ganu a Chwrdd Wben (llefain). Ond na, roedd y cyfarfodydd yma yn hollol unigryw i ni'r Cymry a rhai'n unigryw i fy ardal i yn unig. Cofiwch, does dim amheuaeth nad uchafbwynt y flwyddyn i fi yw'r Gymanfa Ganu. Fel ma nhw'n dweud yn Sir Benfro, dw i'n joio!

Dros yr wythnosau nesaf bydd yna sawl Cymanfa Ganu yn cael ei chynnal yng ngorllewin Cymru – Aberteifi, Glanarthen, a Blaen-ffos, ac enwi dim ond rhai.

Bydd y canu pedwar llais yn atseinio a phawb yn dathlu bod Cymanfa Ganu arall wedi cael ei chynnal. Yn enwedig eleni, oherwydd dyma'r tro cyntaf mae rhai wedi mentro 'nôl ers y Cyfnod Clo.

Yn arwain i fyny at y cymanfaoedd mae grwpiau o bobl wedi bod yn dod at ei gilydd i weithio ac i baratoi yn y rihyrsals a'r Ysgol Gân, yn barod am y diwrnod mawr.

Rydw i'n ymwybodol nad yw'r Gymanfa Ganu at ddant pawb. Ond mae hyd yn oed y bobl sydd ddim yn ffans mwyaf o'r Gymanfa eisiau ei gweld yn parhau, achos eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r traddodiad a'r hanes.

Dwi'n cofio mynd i'r ysgol Sul a rihyrsal y Gymanfa. Cael ffrog fach newydd i'r Gymanfa ei hun, a'r ffaith fod Mam, Dad ac wrth gwrs Mam-gu a Dad-cu yn falch iawn fy mod wedi cael fy newis i ledio'r emyn.

Ac oedd, roedd y capeli'n gyffyrddus lawn i wrando arnom ni'n plant yn mynd drwy ein gwaith yn raenus. Ac yn y nos wedyn, sefyll ar y sedd yng nghanol y baswyr gyda Dad-cu yng Nghymanfa Ganu Aberteifi. Roedd y sŵn yn fyddarol a dwi'n cofio rhyfeddu at y canu, er nad oeddwn i ddim cweit yn deall, nac yn gwerthfawrogi beth oeddwn i'n ei glywed. Mae llawer yn teimlo trueni fod y rhan bwysig yma o'n diwylliant capel yn araf ddod i ben. Mae ambell rihyrsal mewn sawl capel wedi mynd yn waith caled.

Ond ar y noson, o dan arweinyddiaeth arweinwyr adnabyddus fel Trystan Lewis, Rob Nicholls a Rhys Griffiths, mae morio canu yn llenwi'r lle, a phawb am un flwyddyn arall yn hapus fod y fflam yn dal i fflachio ym moliau pobl am y traddodiad unigryw yma.



Capel Blaen-ffos, sir Benfro

Beth yw'r ateb felly i sicrhau dyfodol y Gymanfa am ambell flwyddyn arall?

Wel, byddwn i'n dweud bod angen cefnogi ein gilydd, mynd i gymanfaoedd ein gilydd. Does dim raid aros yn ein 'cymanfa ni' yn unig. Wrth fynd i rai eraill, rydym yn clywed emynau gwahanol, yn gweld arweinwyr gwahanol, a gallwn annog pobl, 'Dewch i'n cymanfa ni tro nesa.' A does dim raid i ni fod y cantorion gorau. Does dim raid sefyll yn y galeri i ganu er mwyn bod yn rhan o'r digwyddiad.

Ewch i gefnogi, mwynhewch y moliant, fel bod y cyfarfodydd arbennig yma'n para am sawl blwyddyn fach arall.

*Sian Elin Thomas*

# Encil Pwyllgor Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ddydd Iau, 30 Mawrth, cynhaliwyd Encil Pwyllgor y Chwiorydd yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Gwahoddwyd Huw a Nan Wyn Powell-Davies i arwain y diwrnod. Estynnwyd croeso i bawb ac arweiniwyd y defosiwn gan y Llywydd, Mrs Christine Hodgins.

Cawsom ragflas o'r thema newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef 'Myfi yw'r Wir Winwydden'. Yn ei chyflwyniad cyfeiriodd Nan at y geiriau canlynol o Efengyl Ioan, pennod 15: 'Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi', gan holi'r cwestiwn: sut ydyn ni'n aros? Mae'n bwysig ein bod yn aros yn y *Gair*, yn aros mewn *gweddi* ac yn aros mewn *cymdeithas* â'n gilydd, fel yr adleisir yng ngeiriau emyn Ann Griffiths: 'O am aros / yn ei gariad ddyddiau f'oes'.

Roedd y sesiwn cyntaf o dan ofal Huw ac yn seiliedig ar weddi'r Arglwydd Iesu yn Ioan 17 – y Weddi Archoffeiriadol. Yma roedd Iesu yn ymddiddan â'r disgyblion ac yn eu calonogi gyda'r geiriau: 'Codwch eich calonnau'. Roedd yn gweddïo dros ei ddisgyblion, dros bawb sydd yn credu a thros undod yr Eglwys. Wrth weddïo drosom, cawn ninnau ein hannog i weddïo dros eraill. Yna, yn ein grwpiau gofynnwyd



i ni ymateb i'r bennod ac i offrymu ein gweddïau ninnau.

Yn sesiwn y prynhawn cawsom gyfle i glywed hanes taith Nan a Huw i Mizoram a Megalaya, a chlywed sut mae'r eglwysi yn tyfu a miloedd o bobl yn dod ynghyd i'r Synod. Mae eu sêl a'u brwdfrydedd dros Efengyl Iesu Grist yn dystiolaeth eu bod yn aros yn y Gair, yn aros mewn gweddi ac yn aros mewn cariad a chymdeithas â'i gilydd. Bob nos Iau maent yn gweddïo dros ein sefyllfa ni yng Nghymru.

Cawsom fendith arbennig yn ystod y dydd, a daeth cyfle ar y diwedd i ddiolch i'r rhai fu'n arwain ac yn trefnu ar ein cyfer. Edrychir ymlaen at y Sasiynau ym mis Mai pan ddaw cyfle i groesawu chwech o gyfeillion o Fryniau Casia fydd yn treulio pythefnos yng Nghymru. Bryd hynny, fe ddaw ystyr y geiriau 'Myfi yw'r winwydden, chwi yw'r canghennau' yn fyw i ni.

*Eleri Davies*

# Cofio Illtyd Rhys Lloyd (1929–2023)




Un o blant tref Cwmafon oedd Illtyd Lloyd, yr ieuengaf o bedwar plentyn John a Melfina Lloyd, a'i dad yn rheolwr siop y Co-op lleol. Addolai'r teulu ym Mhenuel, Eglwys y Bedyddwyr, ac ewythr iddo oedd y Parchg Richard Lloyd, a fu'n weinidog poblogaidd yn Saron, Llandybïe. Yn dilyn ei addysgu cynradd ac uwchradd yn lleol, ni wnaeth deithio'n bell gan iddo dderbyn ei addysg prifysgol yn Abertawe, gan adael yno gyda gradd MSc mewn mathemateg. Galwyd ef i ymuno â'r RAF a bu'n addysgu peilotiaid yn RAF Cranwell, ger Weston-super-Mare.

Cam nesaf Illtyd Lloyd oedd ceisio swydd fel athro, a daeth cyfle mewn ysgol yn ardal Weston-super-Mare. Tra oedd yno cyfarfu â Julia, merch o Gwm Gwendraeth, a ddaeth yn wraig iddo, a mam i'w dau blentyn, sef Catrin a Steffan. Erbyn hyn cawsai Illtyd swydd yn Ysgol Uwchradd Howardian, Caerdydd. Cafodd ei ddyrchafu'n ddirprwy yn fuan yno, gan deimlo y byddai'n aros mewn addysg uwchradd weddill ei oes. Nid felly y bu, gan iddo gael ei annog i geisio am swydd Arolygwr, gan fyw yn Aberhonddu ac Abertawe, cyn dychwelyd yn derfynol i'r brifddinas. Ysgwyddodd nifer o gyfrifoldebau yn ystod y cyfnod hwn, gan dreulio'r wyth mlynedd olaf o'i wasanaeth fel Prif Arolygwr. Roedd yn ŵr uchel ei barch ym myd addysg, a bu'n llais dros addysg, yn arbennig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn wyneb llywodraeth y dydd. Ar yr un pryd, roedd yn llais dros godi safonau o fewn ysgolion Cymru, gan warchod buddiannau athrawon a disgyblion fel ei gilydd. Roedd yn ddyn egwyddorol ac egnïol, yn gadarn ac yn deg, yn ddidwyll ac yn ddewr. Pryd bynnag y bydd trosolwg o faes addysg yng Nghymru yn ail hanner yr 20g, bydd enw a chyfraniad Illtyd Lloyd yn amlwg iawn.

Yn ystod ei gyfnodau yn y tair tref a dinas y bu'n byw ynddynt, ymaelododd y teulu yn yr eglwys Fedyddiedig agosaf. Gwasanaethodd hwy hyd orau ei allu a derbyn swyddi o gyfrifoldeb ynddynt. Bu'n ysgrifennydd yn Eglwys Capel Gomer, Abertawe, a thrysorydd yn Eglwys y Tabernacl, Caerdydd. Bu hefyd yn drysorydd Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn llywydd yn 1997. Codwyd ef yn llywydd Cymanfa Dwyrain Morgannwg ac yn gadeirydd pwyllgor gweinyddol Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Hyrwyddodd achos y Gymdeithas Genhadol (BMS), y Feibl Gymdeithas a Chymorth Cristnogol. Gwirfoddolodd i gymryd ei dro gyda'r Te i'r Di-gartref yn y Tabernacl am flynyddoedd, a gyda llu o weithgareddau tebyg. Yn anad dim, roedd yn selog yn yr ysgol Sul a Chwrdd Gweddi'r Tabernacl, ac yn falch o fod yng nghwmni plant a phobl ifanc yr eglwys. Bu'n gyfaill i bob gweinidog, ac yn annwyl gan bawb. Darllenai yn helaeth a meddai'r ddawn i gofio ffynonellau amrywiol ddywediadau. Ni chwenychai glod a moliant byd, ond ymfalchïai ei fod yn aelod o deulu'r ffydd ac arddel enw Iesu. Dathlai ei deulu o Gwmafon, carodd ei wraig, ei blant a'i wyrion, ac roedd teulu'r Tab yn bopeth iddo. Braint oedd ei adnabod a'i ystyried yn gyfaill agos.

*Denzil John*




## Gweddi Dros Ysgolion – Cyfarfod Gweddi dros Zoom

Dewch, ymunwch â ni ar gyfer ein cyfarfod gweddi Zoom nesaf nos Iau, 4 Mai 2023, am 7yh

I dderbyn y ddolen i'r cyfarfod, archebwch eich lle wrth glicio ar y ddolen:

Gweddi Dros Ysgolion: Cyfarfod Gwedd Pray For Schools in Wales: Prayer Zoom Tickets, Thu 4 May 2023 at 19:00 | Eventbrite

**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**

**Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y De**
**Capel y Morfa, Aberystwyth**

**Dydd Iau, 18 Mai 2023**

**Cyfarfod y Prynhawn**
**am 2 o'r gloch**

**Anerchir gan Y Parchg Mererid Mair Williams,**
**Noddfa Caernarfon**

**Cyfarfod yr Hwyr**
**am 5 o'r gloch**

**Anerchir gan Dr Arfon Jones**
**Caerdydd (Beibl.net)**

**Croeso Cynnes i Bawb**

***Byddwn yn darparu te yn y festri rhwng y ddau gyfarfod***

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 22 – Cadarnhau'r addewid am fab i Sara

### Darllen Genesis 17:15–22

Eto fyth yr wythnos hon, daw'r fantais o ganiatáu i'r Beibl ddehongli'r Beibl i'r golwg. Wrth ystyried yr adnodau hyn mae yna ddau beth sy'n dod i'r golwg o'r dechrau. O ran yr addewid am blentyn i Sara, cadwch mewn cof y gwirionedd yna yn Salm 103: 'Ni wnaeth â ni yn ôl ein pechodau, ac ni thalodd i ni yn ôl ein camweddau' (adn. 10). Roedd y ffordd yr oedd Sara wedi cefnu ar addewid Duw drwy ildio'i llawforwyn i Abraham, a'r ffordd yr oedd yntau hefyd wedi cydsynio â hynny, braidd yn eu gosod y tu allan i ewyllys Duw. Y rhyfeddod yma eto yw'r gwirionedd fod Duw yn sicr o ddod â'i fwriadau i ben, ac wrth i'r addewid gael ei ailadrodd a'i gadarnhau rydym yn cael golwg eto ar y gwirionedd mai sefyll o dan y cyfamod gras yr oedd Sara, fel Abraham. Yn wir, mae'r addewid am y plentyn yma'n dyrchafu Sara mewn ffordd sy'n gwbl wrth-ddiwylliannol.

Mewn cyd-destun patriarchaidd, cawn y pwyslais yma ar fendithio matriarch-aidd: 'ie, bendithiaf hi, a bydd yn fam i genhedloedd, a daw brenhinoedd pobloedd ohoni (adn. 16). Mi fyddai Sara yn fam i frenhinoedd. Ac mae gweddill yr Hen Destament yn olrhain sylweddoliad yr addewid yma, nes inni gyrraedd yr un brenin, yr had, yr un yr oedd y bobl ar Sul y Palmwydd yn ei gyfarch wrth iddo ddod i mewn i Jerwsalem, 'Wele dy frenin yn dod atat' (Mathew 21:5).

Yn wir, edrych ymlaen at y brenin yma fu pobl Dduw o'r dechrau. Sylwch ar eiriau Jacob wrth fendithio'i feibion yn Genesis 49:10: 'Ni fydd y deyrnwialen yn ymadael â Jwda, na ffon y deddfwr oddi rhwng ei draed, hyd oni ddaw i Seilo; iddo ef y bydd ufudd-dod y bobloedd.' Yna, cawn eiriau Balaam yn Numeri 24:17: 'Fe'i gwelaf ef, ond nid yn awr; edrychaf arno, ond nid yw'n agos. Daw seren allan o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel'. Ganrifoedd yn ddiweddarach cawn Eseciel yn proffwydo: 'Byddaf yn gosod arnynt un bugail, fy ngwas Dafydd, a bydd ef yn gofalu amdanynt; ef fydd yn gofalu amdanynt ac ef fydd eu bugail. Myfi, yr ARGLWYDD, fydd eu Duw, a'm gwas Dafydd fydd yn dywysog yn eu mysg; myfi, yr ARGLWYDD, a lefarodd' (Eseciel 34:23–4). Tra mae Abraham yn cael addewid am fab, yn awr cawn weld pam mai ystyr y gair Sara yw tywysoges, y rhain sy'n geni brenhinoedd.

Yn ail, wrth ystyried ymateb Abraham yn adnod 17, mae'n rhwydd tybio ar yr olwg gyntaf fod yna amheuaeth o addewid Duw wrth iddo ymgrymu o'i flaen: 'ond chwarddodd ynddo'i hun'. Mae'r Beibl am esbonio'r ymateb yn Rhufeiniaid 4. Yno mae Paul yn egluro'r hyn sy'n digwydd yma: 'Er ei fod tua chant oed, ni wanychodd yn ei ffydd, wrth ystyried cyflwr marw ei gorff ei hun a marweidd-dra croth Sara. Nid amheuodd ddim ynglŷn ag addewid Duw, na diffygio mewn ffydd, ond yn hytrach grymusodd yn ei ffydd a rhoi gogoniant i Dduw, yn llawn hyder fod Duw yn abl i gyflawni'r hyn yr oedd wedi ei addo. Dyma pam y cyfrifwyd ei ffydd iddo yn gyfiawnder' (adn. 19–22).

Ffactor arall sy'n cadarnhau'r hyn a ddarllenir yn Rhufeiniaid 4 yw nad oes sôn am gerydd o'r nefoedd, fel yn Genesis 18:13–14 pan mae Sara yn chwerthin mewn anghrediniaeth. Beth bynnag, mae Duw yn awr yn dadlennu nid yn unig yr addewid am fab, ond yn rhoi enw i'r mab – Isaac, sy'n llythrennol yn golygu 'chwerthin', gan rag-weld y math o effaith y byddai'r geni yn ei gael ar y ddau yma. Yn ôl Diarhebion 17:22: 'Y mae calon lawen yn rhoi iechyd, ond ysbryd isel yn sychu'r esgyrn'. A phenllanw llawenydd Abraham a Sara fyddai'r enedigaeth yma.

Mae'n sicr ein bod i gyd yn gyfarwydd â'r profiad o beidio gwybod sut mae ymateb yn iawn, gyda'r cymysgedd o emosiynau sy'n medru llifo o ryfeddod neu syndod. Braidd na ellid priodoli teimladau Abraham i gyffes y tad hwnnw oedd â mab ym meddiant cythreuliaid: "Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd; cymorth fy anghrediniaeth i" (Marc 9:24). Mae Abraham yn parhau i feddwl fod yna fodd o sylweddoli'r addewid drwy Ismael, ac mae'n ceisio'r fendith iddo: 'O! na fyddai Ismael fyw ger dy fron.' I'r cais hwn mae yna ateb negyddol ac ateb cadarnhaol. Nid hwn fydd yr un y bydd Duw yn sicrhau'r cyfamod drwyddo, ond Isaac. Wedi dweud hynny, mi fydd yna fendith i'r bachgen yma, ac mi fydd yna etifeddiaeth hefyd.

O ran Isaac, mae'r cyfamod ag ef yn un tragwyddol, a byddwn yn cael cip ar arwyddocâd hyn wrth feddwl am adnodau olaf y bennod yr wythnos nesaf. I gloi yr wythnos hon, sylwch nawr fod Duw yn nodi manylder yr addewid: 'y mab y bydd Sara yn ei eni iti erbyn yr amser yma'r flwyddyn nesaf' (adn. 21). Yn dilyn hyn, wedi derbyn yr addewid, 'aeth Duw oddi wrth Abraham'. Rhwng penodau 16 a 17 mae yna 13 o flynyddoedd lle na chawn gofnod o Dduw yn siarad yn benodol ag Abraham; doedd dim datguddiad arbennig. Ond cofiwch, nid yw'r Beibl yn gwrth-ddweud ei hun. Os oes yna gyfnodau lle mae llais a phresenoldeb Duw yn gwbwl amlwg, mae presenoldeb Duw yn wastad yn realiti i'w blant. Cawn ein hatgoffa o hyn yn adnodau cychwynnol Salm 139, ac mae Paul yn dysgu yr un peth wrth bregethu yn Athen: 'nid yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom' (Actau 17:27).

1. Ai gwir y gair fod elw i mi
   yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
   A gollodd ef ei waed yn lli
   dros un a'i gyrrodd ef i'w groes?
   Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
   y buost farw i mi gael byw?

   Mae Charles Wesley yn ysgrifennu'r geiriau hyn i nodi ei ryfeddod at waith grasol Duw yn ei fywyd ym mis Mai 1738, wythnosau wedi iddo ddod yn Gristion. Rhannwch rywbeth o ryfeddod gras yn eich bywyd chi.

2. Mi fydd yna lawer o siarad am frenin dros y dyddiau nesaf yma – nid bod gan y brenin hwnnw fawr o awdurdod. Sut fyddwch chi'n deall brenhiniaeth Iesu yn eich bywyd?

3. Mae yna addewidion lu yn y Beibl i Gristnogion ac i'r Eglwys. Prawf o'n cyffes yw ein parodrwydd i gredu 'yn llawn hyder fod Duw yn abl i gyflawni'r hyn yr oedd wedi ei addo' (Rhufeiniaid 4:22). Ble fyddwch chi'n pwyso ar addewidion Duw heddiw?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Mai, am 7.30yh**
**Emynau Caradog Roberts**
Nia fydd yn arwain y rhaglen arbennig yma o Rosllannerchrugog i nodi gwaith yr organydd, yr arweinydd a'r trefnydd cerdd Caradog Roberts. Bydd yr emynau cynulleidfaol o'i gasgliad o waith. Cawn gwrdd â'r cerddor lleol Brian Hughes, a fydd yn trafod cyfraniad cerddorol Caradog

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhiannon Lewis yn cyflwyno perfformiadau gan Gantorion Blaenffos

**Sul, 7 Mai, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Barry Morgan, Caerdydd

# George Verwer: mudiad Operation Mobilization yn colli eu sylfaenydd a'u hysbrydoliaeth

Dyw hi ddim yn hawdd crynhoi bywyd George Verwer i un erthygl fer. Heb os nac oni bai, ef oedd un o ffigyrau pwysicaf yr Eglwys yn yr 20fed ganrif. Dywed nifer ei fod ef a'r mudiad a sefydlodd dros drigain mlynedd yn ôl, sef Operation Mobilization (OM), wedi newid cwrs cenhadaeth fodern. Ers dechrau'r mudiad roedd gan George angerdd di-sigl dros weld pŵer pobl ifanc yn rhoi lan bopeth yn enw rhannu'r newyddion da. Gweddi oedd canolbwynt ei fywyd, ac felly hefyd yr eglwys leol, ac estyn at bobl sydd erioed wedi clywed am Iesu. Doedd dim syniad yn rhy uchelgeisiol i roi cynnig arno.

O ystyried mai myfyriwr ifanc ydoedd pan benderfynodd ef a dau ffrind werthu peth o'u heiddo i ariannu taith genhadol i Fecsico, roedd ganddo ffydd ryfeddol yn Nuw. Dan ei arweinyddiaeth, OM oedd y mudiad wnaeth smyglo'r nifer mwyaf o Feiblau i'r Undeb Sofietaidd. Ef hefyd gafodd y syniad o brynu llong er mwyn cludo llyfrau Cristnogol a chenhadon dros y byd. Dywedodd nifer fawr o bobl ei fod yn syniad amhosib, ond roedd ganddo ffydd, a darparodd Duw. Bellach, mae pedwaredd a phumed llong OM yn hwylio – *Logos Hope*, y llong yr oeddwn i'n gwasanaethu arni rhwng 2015 a 2017, a'r llong fwyaf newydd, *Doulos Hope*.

Fe wnaeth George Verwer ymweld â Chymru nifer o weithiau gan annog ac annerch eglwysi dros Gymru, o Gaerdydd i'r Wyddgrug. Daeth i Highfields yng Nghaerdydd, fy eglwys gartref, nifer o weithiau. Dwi'n ei gofio fe droeon yn gwisgo crys gyda map o'r byd arno, yn dal glôb enfawr, a phwyntio at nifer o wledydd, yn llawn gwybodaeth am y gwaith rhyfeddol mae Duw'n ei wneud ynddynt, a'r angen sydd ar draws y gwledydd gan ddweud pethau fel: "When was the last time you prayed for India?" Roedd diwygiad 1904 yn anogaeth fawr iddo – yn enwedig pwyslais y diwygwyr ar weddi. Cred greiddiol iddo ef, ac i OM, oedd pwysigrwydd gweddi fel sail i bopeth ry'n ni'n ei wneud. A phan o'n i ar y llong *Logos Hope*, dyna beth welais i – pan oedden ni'n gweddïo, roedd pethau'n digwydd. Pan nad oedden ni'n gweddïo, doedd pethau ddim yn digwydd – mor syml â hynny.

Mae'n debyg taw un o'r rhesymau pam roedd gweddi mor bwysig iddo oedd oherwydd hanes ei dröedigaeth. Pan oedd yn 14 oed, rhoddodd dynes o'r enw Dorothea Clapp gopi o Efengyl Ioan iddo. Bu Mrs Clapp yn gweddïo'n ddyfal am 18 o flynyddoedd dros ddisgyblion ysgol George, y byddent yn dod yn ddilynwyr angerddol dros Grist ac yn mynd â'i neges i bedwar ban byd. Dair blynedd wedyn daeth George yn Gristion wrth wrando ar Billy Graham yn pregethu. Trwy ei fywyd dywedodd fod popeth wedi dechrau gyda ffydd hen fenyw'n gweddïo'n ddyfal am 18 o flynyddoedd.

Bu farw yn 84 oed ddiwedd Ebrill eleni, ac er ei oedran a'i gancr roedd yn dal i deithio o gwmpas, yn gweddïo, yn annerch ac yn annog hyd at ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth. Bydded i hynny eich annog chi'r henoed, a chi'r rhai sy'n dioddef o salwch. Mae Duw'n llawer mwy nag hynny, ac yn dal i allu eich defnyddio mewn ffordd bwerus. Nid gwaith y rifanc yn unig yw adeiladu eglwys Crist.


Mi wna i orffen gyda dau ddyfyniad ganddo:

> "We who have Christ's eternal life need to throw away our own lives."



> "God is seeking men and women of reckless faith today ... to be reckless in your faith does not mean to be unthinking, but the reverse – concentrated, single-minded in your concern that God should be glorified and souls won."

*Dyfan Graves*



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Pwy, meddaf i, ydych chi?*

**Emyn 902 'Abba Dad, O gad i'm fod'**

**Darlleniad – Salm 31:1–9, 15–16**

**Gweddi**

Arglwydd, Dad, ti yw ein lloches a'n cyfiawnder. Ti yw'r un sy'n gwrando ar ein cwynfan, ti yw'r hwn sy'n ein gwaredu ar frys. Bydd eto heddiw yn amddiffynfa i ni, yn arweinydd ac yn dywysydd ar ein taith. Cadw ein traed rhag y rhwydi cudd sy'n ein baglu a'n caethiwo, a chadw ni rhag ymddiried yn eilunod gwag y byd. Arglwydd Iesu Grist, rhoddwn i ti ein hysbryd, a thrwy dy Ysbryd llawenhawn ynot eto heddiw, oherwydd, eto heddiw, y mae ein hamserau yn dy law. Gwena arnom, dy blant, dirion Arglwydd. Amen.

**Emyn 319 'Wele'n sefyll'**

**Darlleniad – 1 Pedr 1:17–2:10**

Beth allai fod yn fwy dramatig ar raglen deledu? Dacw'r cyflwynydd yn cyflwyno i'w gilydd ddau berson oedrannus a gafodd eu gwahanu pan oeddynt yn fabanod. Hyd yn ddiweddar, ni wyddent am fodolaeth y naill na'r llall, gan iddynt gael eu mabwysiadu a'u magu ymhell oddi wrth ei gilydd. Mor wahanol oedd cefndiroedd ieithyddol eu magwraeth, eu cyfleoedd, eu gyrfaoedd a'u diwylliant ffurfiannol. Ond er y pellter fu rhyngddynt drwy'r blynyddoedd a phopeth arall a'u gwahanodd, roeddynt yn rhannu'r un genynnau, yn hanfodol debyg i'w gilydd, yn perthyn.

Ac wrth ddod i adnabod ei gilydd o'r newydd, dyma'r ddau ohonynt yn estyn am albwm o luniau i'w dangos i'w gilydd, fel pe bai cynnwys yr albwm yn egluro cyd-destun eu hanesion gwahanol.

Dyna a wna Pedr yn yr adnodau sydd yn ein darlleniad. Mewn cyfres o ddyfyniadau cynigia i Gristnogion cynnar oedd yn byw ymhell o Jerwsalem yn Nhwrci (heddiw), yn genedl-ddynion, oedd yn ddieithriaid i hanes Israel, eu bod drwy ryfeddod gras Duw yn Iesu Grist yn perthyn i'r un teulu, yn perthyn drwy ffydd i'r un tras ysbrydol.

Dyma osod, ar un waith, urddas, statws a gwerth ar bobl oedd yn wynebu erledigaeth, oedd yn cael eu cyhuddo ar gam o fod yn deyrnfradwyr, oedd yn wynebu gwawd eu cyfeillion a gwrthwynebiad yr ymerodraeth. Drwy'r 'albwm', drwy gyfres o gyfeiriadau Beiblaidd a fyddai o bosib yn ddiystyr ar yr olwg gyntaf i'w ddarllenwyr, ceisiodd Pedr eu galluogi i adnabod trugaredd Duw fel y medrent fyw yn deilwng o'u tras.

Ac mae'r hyn a ysgrifennwyd at gynulleidfaoedd gwasgaredig cynnar yr Eglwys yn parhau i fod yn ddarluniau byw sy'n caniatáu i ninnau adnabod anrhydedd tras pobl yr Arglwydd a'r alwad arnom i fyw'n deilwng ohono.

**Darlun 1 Babandod (adn. 2–3)**

Wrth adleisio Salm 34:8 cawn ein hatgoffa mai profiad o 'diriondeb yr Arglwydd' yw man cychwyn ein bywyd ysbrydol yng Nghrist. Cawsom ein geni o'r newydd drwy ei Atgyfodiad i obaith bywiol, ac i etifeddiaeth na chaiff ei difetha na'i llygru byth (1 Pedr 1:3 ymlaen). Felly, nodweddir y plentyn iach gan ei flys, ei syched am 'laeth ysbrydol, pur' Gair Duw. Y syched hwnnw am fwyd maethlon ysbrydol sy'n peri tyfiant a phrifiant ym mhlant yr Arglwydd a chynnydd yn ei deulu.

**Darlun 2 Teml fywiol (adn. 2,4,5)**

Gwnaed addewid i'r brenin Dafydd y byddai ei ddisgynnydd, y Meseia, yn adeiladu teml i Dduw (2 Samuel 7:12–14). Iesu, mab Dafydd, mab Duw yw'r hwn sy'n adeiladu'r 'deml' ysbrydol, anweledig honno. Hanfod teml yw ei bod yn cynrychioli man cyfarfod rhwng Duw a'r ddynoliaeth, rhwng Duw a'i bobl. Y 'deml' yw'r fan lle mae Duw yn 'cartrefu', er na all y nef na'r ddaear ei gyfyngu.

Yn Iesu Grist down ninnau yn 'feini' byw yng nghartref yr Ysbryd Glân.

**Darlun 3 Sylfaen (adn. 6,7,8)**

I bob 'teml' mae'n rhaid wrth sylfaen. Ac mewn cyfeiriad at Eseia 28:16 mae Pedr yn chwarae ar eiriau Hebraeg. Y 'garreg' (eben) yw'r 'Mab' (ben). Iesu, mab Duw, yw'r pen-conglfaen, y garreg sylfaen y mae popeth arall yn dibynnu arni. Ef sy'n cynnig cadernid i adeiladu arno a'i fywyd ef sy'n llenwi'r 'deml' ysbrydol hon. Gan fod y 'garreg' (eben) ym Mab (ben) Duw, y mae'n ddiogel ac yn ddisymud er i 'adeiladwyr' eraill geisio gosod carreg sylfaen wahanol yn ei lle. Daw'r Crist sy'n sylfaen ddiogel ym mwriadau Duw yn garreg i faglu drosti gan y rhai sy'n ei wrthod!

**Darlun 4 Tystio**

Byddai pawb yng nghyfnod ysgrifennu'r llythyr yn gwybod am demlau ac allorau niferus oedd i'w gweld ym mhob dinas. Neilltuid pob teml urddasol, boed i Gesar, i Zeus neu i Artemis, i 'hysbysu' gogoniant neu urddas y duw a gysylltwyd â'r safle. Fel teml fyw, fel meini byw, wedi eu hadeiladu gan Fab Duw, cawsom ein galw i dystio i weithredoedd ardderchog y Duw a'n galwodd ato'i hun, drwy ei Fab (adn. 9). Os llanwyd temlau mawreddog ag offrymau ac aberthau, cawn ninnau fel pobl yr Arglwydd ein galw i gyhoeddi mawrhydi ei weithredoedd (Salm 87:3) ac offrymu 'aberthau ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist' (adn. 5). Ymhlith yr offrwm ysbrydol cymeradwy cynhwysir bwrw ymaith sen a dirmyg tuag at bobl eraill (adn. 1).

**Darlun 5 Gwasanaethu**

Os neilltuwyd 'offeiriaid' i wasanaethu'r duwiau, ac os ordeiniwyd offeiriaid i aberthu yn y tabernacl a'r deml, rhoddwyd braint a bri ar *holl bobl* yr Arglwydd. Mewn adlais bwriadol o Exodus 19:2–6, mae Pedr am i *bob* Cristion sylweddoli ei fraint. Cawsom ein galw gan yr Arglwydd i fod 'yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun' (adn. 9).

**Darlun 6 Cyhoeddi rhyfeddod gras**

Ein braint pennaf yw cyhoeddi gweithredoedd grasol yr hwn a'n galwodd o dywyllwch i oleuni, o farwolaeth i fywyd, o ddieithrwch i berthynas (adn. 10). Unwaith eto, mewn adlais o Hosea 2:23, cyhoeddir rhyfeddod y berthynas rasol y cawsom ein galw iddi yng Nghrist.

I Gristnogion sy'n colli hyder wrth weld dirywiad ein capeli, cofiwn hyn. Ni chafodd unrhyw gynulleidfa ei galw i fod er mwyn parhau sefydliad enwadol. Caiff *pob un ohonom*, os ydym wedi profi tiriondeb yr Arglwydd, ein galw i dyfu mewn adnabyddiaeth ohono Ef. Ynddo Ef, fel unigolion a chynulleidfaoedd, down yn rhan o deml fyw sydd wedi ei hadeiladu ar sylfaen gadarn o benodiad Duw, i gyhoeddi'n ffyddlon, i wasanaethu'n deilwng ac i gyhoeddi'n hyderus ryfeddod gwaith gras Duw ynom ac ar draws y byd.

**Gweddi**

Arglwydd, crea yn ein plith ac ym mhob cenhedlaeth gynulleidfaoedd sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn. Amen.

**Emyn 74 'N'ad i'm adeiladu'n ysgafn'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru